

CYFEILLION AWENYDDGAR

*Yn ei lys ef cawn lesâd — cof allwedd
Cyfeillach trwy gariad.
Beirdd yn rhes a'u bwrdd yn rhad
A phob gwin, a phib-ganiad.*

DYNA un o'r amryfal englynion a ganodd Gwallter Mechain i John Jenkins, Ifor Ceri (1770-1829) i gydnabod ei groeso a'i nawdd i feirdd a cherddorion. Aethai Persondy Ceri yn sir Drefaldwyn yn ddihareb, a gŵr y tŷ yn cael ei gyffelybu i Ifor Hael, noddwr Dafydd ap Gwilym. Llanwai ei dŷ â'i gyfeillion, ei gyd-glerigwyr gan mwyaf, yn ystod wythnos gyntaf y flwyddyn, ond gwahoddai hefyd delynorion o'r Drenwydd a'r cyffiniau. Bu'n gymwynaswr hael i delynorion a gwerinwyr a geisiai ennill ceiniog neu ddwy at eu henillion prin trwy ganu'r ffidil neu fflwiw mewn tafarnau neu ffair.

Nid oedd Ifor Ceri'n unigryw wrth groesawu ei gyfeillion i'w gartre ar ddechrau blwyddyn. Yr oedd hi'n hen arferiad gan bersoniaid o duedd lenyddol a cherddorol i ymweld â'i gilydd yn nhymor y Gwyliau; dyna oedd ystyr yr ymadrodd 'rhodio'r Gwyliau'. Ond yr oedd maint y cynulliadau yng Ngheri yn ystod ardegau a dauddegau'r ganrif o'r blaen yn eu gwneud yn rhai arbennig a nodedig. Rhybuddiodd Ifor Ceri un ymwelydd y byddai'n rhaid iddo gysgu mewn lle cyfyng iawn, 'gwely Gŵyl Mabsant' oedd yr enw ar sefyllfa o'r fath. Nid oedd Ifor Ceri'n wr goludog, ond yr oedd o dras fonheddig a thraddodiad o letygarwch yn ei deulu. Yr oedd hefyd yn ŵr trefnus, a manteisiai ar gwmni fel hyn i sgwrsio a thrafod materion yn ymwneud â llenyddiaeth Gymraeg, yr eglwys, eisteddfodau a chyhoeddi llyfrau. Mewn oes pan oedd teithio'n llafurus a chostus, ffolineb fyddai peidio ag achub ar y cyfle i fynd i'r afael â phynciau o bwys.

Dyna yn wir a ddigwyddodd ym mis Rhagfyr 1817 pan ymwelodd Dewi Rowland â phersondy Ceri wedi iddo ddychwelyd adre o Newfoundland, ar ôl gwasanaethu yno am saith mlynedd. Cyn hynny bu'n gurad yng Ngharno, ac arferai ef ac Ifor Ceri ymweld â'i gilydd. Yr oedd gan y ddau ohonynt ddiddordeb mewn casglu alawon gwerin, ymhlith pethau eraill, ac yn 1810 fel hyn y cyfarchodd Dewi Rowland ei gyfaill cerddgar, a'i hoff offeryn, y soddgrwth:

*Sion Ceri a wna sun cyrorain — a'i
Hirgrwth
O'i haur-groth daw gwio-sain,
Mor eres yw'r arwyraïn
Yn gwau trwy y muriau main.*

Arhosodd Dewi Rowland yng Ngheri dros y Nadolig gan nad oedd eto wedi cael na churadiaeth na bywoliaeth yng Nghymru. Teimlai i'r byw fod yr eglwys mor Seisnig, a gofidiai am anwybodaeth affwysol rhai o glerigwyr y de am hanes Cymru a'i llenyddiaeth ar hyd yr oesoedd.

Ar ôl y Nadolig gwahoddodd Ifor Ceri Thomas Richards, ficer Darowen a Gwallter Mechain, Manafon i gyfarfod Dewi. Yn ôl ym 1810 aethai Thomas Richards gyda Dewi Rowland i Ddolgellau i gyfarfod â Dafydd Ionawr, ac yr oedd Dafydd Ddu Eryri yn digwydd bod yno, a chafodd y tri amser i'w gofio. Cyfarchodd Dewi ei hen ffrind gyda'r englyn hwn:

*Parchus athraw draw o 'Drywen — Risiard
Ŵr iesin ei awen,
Gweua Ladin llin i'r llen,
Nid ymgais Butler amgen.*

Cyfeirio mae'r llinell olaf at Dr Butler, prifathro enwog Ysgol Amwythig. Disgybl iddo oedd Walter Cecil Davies, mab Gwallter Mechain a ddaethai yno gyda'i dad. Gwnaeth Dewi englyn iddo yntau:

*A gŵr ifanc gwarafaidd — ysgolydd
Was gwiulan arabaid,
Impy'n o'i gorun gwaraidd
Bardd yntau o'r gorau gwaraidd.*

Ond haeddai ei dad ddau englyn, dyma'r cyntaf:

*Gwallter ben baner lle bo — uchel ddysg
Sydd wych hael-ddoeth Gymro,
O Fanafon dirion do
Bardd a 'ffeiriad i'w phuro.*

O'i dri englyn i gyfarch gŵr y tŷ, dyma'r un canol:

*Mae Sion yn galon i gyd — a miwsig
Sy'n mesur ei hollfyd,
O Geri mae'n agoryd
Cyfraith yn berffaith i'r byd.*

Gyda'r 'tri pheriglor gôr a gaid', trafodwyd cwynion Dewi am ddiffyg ymwybyddiaeth Gymreig ymhlith rhai clerigwyr ac awgrymwyd cael cymdeithas Gymraeg o fewn yr eglwys. Yr oedd Dewi am i offeiriad esgobaethau'r de gael gwersi Gymraeg!

O Geri felly y deilliodd y penderfyniad a roddwyd gerbron Thomas Burgess, esgob Tyddewi, i ffurfio cymdeithas gyda'r bwriad o Gymreigio bywyd yr eglwys. Y canlyniad fu galw cyfarfod yn Abergwili yn haf 1818 pryd y sefydlwyd *The Cambrian Societies*, ac o hynny gychwyn yr eisteddfodau taleithiol yn 1819. Mae'n wir i'r esgob gael y clod am eu sefydlu; ef oedd yn gyfrifol am yr enw



Gwallter Mechain yn ei gadair.

Saesneg; eithr mabwysiadu syniad Dewi Rowland, wedi'i drafod a'i dreulio'n drwyadl ar aelwyd Ifor Ceri a wnaeth yr esgob.

Bu eisteddfod Caerfyrddin, 1819 yn un arbennig i Wallter Mechain. Cafodd ei gadeirio am ei awdl ar 'Farwolaeth Syr Thomas Picton', enillodd gystadleuaeth yr englyn a gwobrwywyd ei draethawd Saesneg ar fesurau Cerdd Dafod. Teimlai Ifor Ceri iddo ddyfod ag anrhydedd i'w sir enedigol ac i 'gyfeillion awenyddgar' persondy Ceri. Felly, trefnodd ddeiseb i godi arian tuag at ei anrheg â chadair dderw, gyffelyb i'r un y cadeiriwyd ef ynddi yng Nghaerfyrddin.

Ystyr *cadeirio* yn eisteddfodau'r cyfnod oedd eistedd ar gadair ar y llwyfan a chael eich urddo. Cafwyd saer i wneud cadair o dderw sir Drefaldwyn a'i cherfio â llythrennau Coelbren y Beirdd. Yng Ngheri ar 20 Ionawr 1820 gosodwyd y Bardd i eistedd yn ei gadair yng nghwmni lluo o 'feirdd', pob un â'i gyfraniad:

*Gwallter i'r Gader a godwn — a'i glod
I'n gwlad a gyhoeddwn,
Bardd a dawn hardd ydyw hwn,
Ei fawr-ddysg a ryfeddwn.*

Gellir gweld rhan o gefn y gadair yn y darlun adnabyddus o Wallter Mechain gan Hugh Hughes.

Yn y cynulliad hwn y darbyllwyd Dewi Silin i fod yn ysgrifennydd eisteddfod talaith

Powys yn Wrecsam ym mis Medi 1820. Methwyd yn lân â llenwi'r swydd amhoblogaidd hon, a braidd yn anffoddog oedd Dewi Silin o'i derbyn, ond anodd gwrthod gwahoddiad Ifor Ceri. Ail fab Thomas Richards, Darowen oedd David Richards, yn ficer Llansilin ac wedi'i dderbyn yn Fardd wrth Frait a Defod yng Ngorsedd Iolo Morganwg yng Nghaerfyrddin. Yr oedd yn gasglwr llyfrau a llawysgrifau, yn gerddor medrus ac yn gwmniwr diddan.

Bwriadai Ifor Ceri gynnal gorsedd ar Fryn Aran, ger ei gartref, ond troes y tywydd yn wlyb a garw, a gwrthododd y cwmni, mewn cyfres o englynion, a throi allan. Ond fe gafwyd Gorsedd y flwyddyn ganlynol pan ddaeth y beirdd i Geri ym mis Ionawr 1821, a Taliesin, mab Iolo Morganwg, yn eu mysg. Y Bardd Gweinyddol oedd Gwallter Mechain a dilynwyd y seremoni yn union fel y gwnaed yng Nghaerfyrddin. Derbyniwyd Thomas Jones, y Bardd Cloff, a John Jones, Ioan Tegid o Rydychen, yn Feirdd, y ddau yn eu habsen; felly hefyd yr Ofyddion Alfred B. Clough, Rhydychen, a Roger Clough, person Corwen, a Llewelyn Lloyd, person Nannerch a brawd i Angharad Llwyd. Derbyniwyd tair Ofyddes, sef Angharad, Hester Cotton a Mair Richards, Darowen. Merched a siomwyd

(parhad ar dudalen 13)